

### *Patrwm cyflwyno Cyflwyniad o fis Hydref i fis Mehefin*

#### *Disgrifiad o'r modiwl*

Cyflwynir pedwar maes pwysig o ystadegau modern (ystadegau meddygol; dadansoddiad cyfres amser; ystadegau ar gyfer data aml-amrywiol; a dulliau ystadegol Bayesaidd) mewn modiwlau annibynnol a fydd yn rhoi persbectif eang ac amrywiol i chi am y pwnc. Mae'r modiwl yn pwysleisio cysyniadau allweddol, cymwysiadau a dehongliadau ymarferol yn hytrach na manylion technegol. Mae'n cynnwys meddalweddau SPSS ac WinBUGS, y byddwch yn eu defnyddio i ddadansoddi data a datblygu eich dealltwriaeth o ystadegau. I astudio'r modiwl hwn dylech feddu ar wybodaeth gadarn am fathemateg sylfaenol fel y'i darperir gan y modiwlau Lefel 1 priodol, a chymhwysedd ystadegol ar y lefel a ddatblygwyd gan yr astudiaeth Lefel 2 briodol.

#### *Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd sy'n cynnwys ystadegau a thebygolrwydd
- rhywfaint o brofiad addysgu
- y gallu a'r parodrwydd i ddarparu tiwtorialau wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan ddefnyddio deunyddiau y gall fod angen i chi eu paratoi, sy'n briodol ar gyfer y modiwl a'r myfyrwr
- profiad o ddehongli canlyniadau ystadegol, mewn o leiaf 2 o'r pedwar maes a gwmpesir gan y modiwl (er enghraifft, drwy gwblhau ymarfer marcio cyn y cyfweiliad yn llwyddiannus) a gallu dangos y gallu i ddatblygu dealltwriaeth o weddill y deunydd yn gyflym
- cyfarpar a sgiliau TG priodol
- bod yn gyfarwydd â meddalwedd ystadegol megis SPSS ar gyfer Windows a'r gallu i ddysgu meddalweddau eraill a ddefnyddir yn y modiwl (LearnBatyes ac WinBUGS) yn gyflym.
- y gallu i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu, megis:
  - gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho deunyddiau hanfodol a chael gafael ar wybodaeth arall
  - systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd y myfyrwr
  - e-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â'r myfyrwr, tiwtoriaid a staff eraill yn anghydamseredig
  - meddalwedd tiwtorialau ar-lein y Brifysgol (rhoddir hyfforddiant)
  - marcio aseiniadau myfyrwr a gyflwynir yn electronig ar ffurf PDF ar y sgrin

#### *Gwybodaeth ychwanegol*

Gan y bydd myfyrwr ar y modiwl hwn yn gallu dewis cyflwyno'r aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy system TMA/EMA ar-lein y Brifysgol, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynir yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i'r gwasanaeth TMA/EMA. Efallai y bydd angen i chi hefyd farcio aseiniadau papur a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA). Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, bydd y rhan olaf yn cynnwys ymarfer marcio electronig, rhoddir rhywfaint o arweiniad ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael os cewch eich penodi i'r rôl. Mae'n bosibl y bydd union natur y cyfleusterau e-ddysgu a systemau'r Brifysgol i fonitro cynnydd myfyrwr a delio ag aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn datblygu yn y dyfodol, a bydd angen i chi fod yn barod i addasu yn unol â hynny. Noder y bydd disgwyl i diwtoriaid ddefnyddio eu cyfarpar eu hunain ar gyfer pob agwedd ar e-ddysgu yn unol â pholisi'r Brifysgol.

*Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	3
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3